










<p><b>Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Sgiliau (bydd y myfyrwyr <u>YN GALLU</u> erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu):</b> adnabod tueddiadau a phatrymau mewn data a ddarperir ar ffurf tablau a graffiau; cyfrifo niferoedd y gronynnau isatomig mewn atom penodol.</li> <li><b>Gwybodaeth (bydd y myfyrwyr <u>YN GWYBOD</u> erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu):</b> byddant yn gwybod màs cymharol a gwefrau cymharol protonau, niwtronau ac electronau.</li> <li><b>Dealltwriaeth (bydd y myfyrwyr <u>YN DANGOS EU DEALLTWRIAETH</u> erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu):</b> Bydd y myfyrwyr yn ateb cwestiynau cyn-bapur yn ymwneud â'r testun gan gynnwys cwestiynau AYE</li> </ul>		<p><b>Geiriau/Termau Allweddol:</b> resbiradaeth, hylosgiad, ffotosynthesis, atom, niwclews, orbitau, protonau, niwtronau, electronau, rhif màs, rhif atomig, metelau, anfetelau, adeiledd electronig, metelau alcalïaidd, halogenau.</p>	
<p><b>RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 1 a 2:</b> <b>Yr atmosffer</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y myfyrwyr yn gwybod beth yw cyfansoddiad presennol yr atmosffer.</li> </ul> <p>Bydd y myfyrwyr yn gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Disgrifio ffurfiant yr atmosffer gwreiddiol</li> <li>Egluro sut mae cyfansoddiad yr atmosffer wedi newid dros amser daearegol.</li> </ul> <p><b>Y Gylchred Garbon</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y myfyrwyr yn gwybod rolau <u>resbiradaeth</u>, <u>hylosgiad</u> a <u>ffotosynthesis</u> mewn cynnal lefelau ocsigen a charbon deuocsid yn yr atmosffer</li> <li>Bydd y myfyrwyr yn gwybod y gellir gwahanu nwyon oherwydd bod ganddynt wahanol ferwbwyntiau (ond nid oes gofyn iddynt wybod manylion y distyllu ffracsiynol yn yr uned hon).</li> </ul> <p><b>Effeithiau Amgylcheddol</b></p> <p>Bydd y myfyrwyr yn gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>disgrifio effeithiau a chanlyniadau amgylcheddol allyrru carbon deuocsid a sylffwr deuocsid i'r atmosffer</li> <li>Bydd y myfyrwyr yn gwybod y profion a ddefnyddir i adnabod ocsigen a nwy carbon deuocsid.</li> </ul> <p><b>Bydd y myfyrwyr yn cymhwyso ac yn dangos sgiliau a gwybodaeth newydd yn ACD1</b></p>		<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y myfyrwyr yn gwybod beth yw canran cyfansoddiad y nwyon yn yr aer a sut gall aer hylifol wahanu i gynhyrchu ocsigen a nitrogen.</li> <li>Bydd y myfyrwyr yn gallu disgrifio sut mae'r canran o nwyon yn yr atmosffer wedi newid.</li> </ul>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd 1</b></p> <p>Cwis ar google classroom ar y newidiadau i'r atmosffer.</p>
<p><b>RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 3 a 4:</b> <b>Adeiledd Atomig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y myfyrwyr yn dwyn i gof bod atomau'n cynnwys niwclews â gwefr positif (yn cynnwys protonau a niwtronau) gydag electronau â gwefr negatif yn troi o'i amgylch</li> <li>Bydd y myfyrwyr yn gwybod masau cymharol a gwefrau cymharol protonau, niwtronau ac electronau</li> <li>Bydd y myfyrwyr yn egluro termau rhif atomig, rhif màs ac isotop er mwyn gallu cyfrifo'r niferoedd o brotonau, niwtronau ac electronau sy'n bresennol mewn atom.</li> </ul> <p><b>Tabl Cyfnodol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y myfyrwyr yn deall sut mae elfennau wedi cael eu trefnu yn y Tabl Cyfnodol modern, gydag elfennau â phriodweddau tebyg yn ymddangos yn yr un grwpiau.</li> <li>Bydd y myfyrwyr yn adnabod lleoliad metelau, anfetelau ac elfennau â phriodweddau rhyngol yn y tabl cyfnodol.</li> </ul>	<p></p> <p></p> <p></p>	<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y myfyrwyr yn gallu darganfod y nifer o brotonau, electronau a niwtronau mewn atom neu isotop.</li> <li>Bydd y myfyrwyr yn gwybod lle mae metelau ac anfetelau yn y Tabl Cyfnodol.</li> <li>Bydd y myfyrwyr yn gallu adnabod lleoliad elfen yn y tabl cyfnodol drwy ddefnyddio'r termau grŵp a chyfnod ac yn gallu egluro bod gan rhai elfennau briodweddau metelau ac anfetelau.</li> </ul>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd 1</b></p> <p>Cwblhau tablau gyda gwybodaeth am ronynnau is-atomig.</p>

<p><b>RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 5 a 6:</b>  <b>Adeiledd Electronig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn gallu llunio adeileddau electronig y 20 elfen gyntaf</li> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn gwybod sut mae adeiledd electronig unrhyw elfen yn gysylltiedig â'i lleoliad yn y Tabl Cyfnodol</li> </ul> <p><b>Grŵp 1 (y metelau alcalïaidd)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn adnabod y tebygrwyddau a'r tueddiadau ym mhriodweddau ffisegol a chemegol elfennau Grŵp 1.</li> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio adweithiau metelau alcalïaidd gydag aer/ocsigen a dŵr i egluro'r tueddiadau yn adweithedd metelau Grŵp 1.</li> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn dwyn i gof y prawf a ddefnyddir i adnabod nwy hydrogen.</li> </ul> <p><b>(Asesiad CRYNODOL. Bydd cwestiynau'n cynnwys amrywiaeth o gwestiynau atebion hir a byr.)</b></p>	   	<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn gallu adnabod lleoliad elfen yn y tabl cyfnodol drwy ddefnyddio eu hadeiledd electronig.</li> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn gallu disgrifio adwaith metelau alcalïaidd gyda dŵr ac osigen.</li> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn gallu ysgrifennu hafaliadau geiriol a symbol ar gyfer yr adweithiau uchod.</li> </ul>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd1</b></p> <p>Paratoi adnodd fydd o gymorth i adolygu'r holl waith a gwblhawyd yr hanner tymor hwn ar gyfer Asesiad Crynodol.</p>
<p><b>RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 7 &amp; 8</b>  <b>Grŵp 7 (yr halogenau)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn adnabod y tebygrwyddau a'r tueddiadau ym mhriodweddau ffisegol a chemegol elfennau Grŵp 7.</li> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio adweithiau halogenau â metelau alcalïaidd a haearn i adnabod y tueddiadau yn adweithedd halogenau Grŵp 7.</li> <li>○ <b>Bydd y myfyrwyr yn adnabod adweithedd cymharol clorin, bromin ac iodid fel mae adweithiau dadleoli yn ei ddangos</b></li> </ul>		<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn gallu disgrifio adwaith halogenau.</li> <li>○ Bydd y myfyrwyr yn gallu ysgrifennu hafaliadau geiriol a symbol ar gyfer yr adweithiau uchod.</li> </ul>	